# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYNHADLEDD GYSWLLT RHEIFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

Dyddiad ac Amser

**11.00 y.b., DYDD GWENER, 10FED TACHWEDD, 2017**

Lleoliad

**Y Ganolfan, Porthmadog, Gwynedd. LL49 9LU**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**
**(01341) 424301**

**glyndaobrien@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD: 03.11.17)

# CYNHADLEDD GYSWLLT RHEIFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

## Cyngor Gwynedd

Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| Dylan Bullard | E. Selwyn Griffiths |
| Annwen Hughes | John Brynmor Hughes |
| Anne Lloyd Jones | Eryl Jones-Williams |
| Dewi Owen | Angela Russell |
| Gethin Glyn Williams | Owain Williams |

## Cyngor Sir Ceredigion

Disgwyl Enwebiad

## Cyngor Sir Powys

Councillor J M Williams

AELODAU CYFETHOLEDIG:

| | |
|---|---|
| Dafydd Elis-Thomas | Aelod Cynulliad Dwyfor/Meirionnydd |
| Liz Saville Roberts | Aelod Seneddol Dwyfor/Meirionnydd |
| Dave Thomas | Llywodraeth Cymru |
| Claire Britton | Rheilffordd Ffestiniog |
| Cynghorydd Trevor Roberts | Pwyllgor Rheilffordd Amwythig/Aberystwyth |
| Tim Bell | Trenau Arriva Cymru |
| Ben Davies | Trenau Arriva Cymru |
| David Crunkhorn | Trenau Arriva Cymru |
| Samuel Hadley | Network Rail |
| Carl Jones | Network Rail |
| Helen Lewis | Ysgol Uwchradd Tywyn |
| Tudur O Williams | Ysgol Ardudwy |
| Pennaeth | Coleg Meirion-Dwyfor |

| | |
|---|---|
| Joyce Watson | AC Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Simon Thomas | AC Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Neil Hamilton | AC Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Stuart Williams | Rheilffordd Talyllyn |
| Roger Goodhew | Cymdeithas Teithwyr Amwythig-Abersytwyth |
| Sgt. Karl Anderson | Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig |
| Cynghoryddd Freya Hannah Bentham | Parc Cenedlaethol Eryri |
| Rob Newman | Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig |
| | Heddlu Gogledd Cymru |
| Cynghorydd Delwyn Evans | Grwp Mynediad Meirionnydd |
| Cynghorydd Alun Wyn Evans | Cynrychiolydd Meirionnydd o Un Llais Cymru |
| Cynghorydd Trefor Jones | Cynrychiolydd Dwyfor Un Llais Cymru |
| Claire Williams | Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian |
| Chris Wilson | Cyngor Sir Ceredigion |
| Ann Elias | Cyngor Sir Ceredigion |

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2017/18.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2017/18.

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

I ystyried unrhyw fater sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**6. COFNODION** 6 - 12

I gadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2017.

(Copi'n amgaeedig)

**7. ADRODDIAD GAN NETWORK RAIL**

I dderbyn adroddiad llafar gan Mr Sam Hadley, Network Rail.

**8. ADRODDIAD GAN TRENAU ARRIVA CYMRU CYF.**

I dderbyn adroddiad llafar gan gynrychiolydd o Trenau Arriva Cymru Cyf.

**9. ADRODDIAD SWYDDOG PARTNERIAETH RHEILFFORDD Y CAMBRIAN**

I gyflwyno Claire Williams, Swyddog Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian, ac i dderbyn diweddariad o weithgareddau hyd yma.

## 10. CWESTIYNAU FFURFIOL

13 - 19

I dderbyn ymateb i'r cwestiynau amgaeedig a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf:

(i) Atodiad 1 - Cwestiwn gan Gymdeithas Teithwyr Amwythig/Aberystwyth
(ii) Atodiad 2 – Cwestiwn gan Gyngor Cymuned Llangelynnin
(iii) Atodiad 3 – Cwestiwn gan Gyngor Cymuned Llangelynnin
(iv) Atodiad 4 – Cwestiwn gan Cyngor Tref Cricieth
(v) Atodiad 5 – Llythyr a dderbyniwyd gan Cyngor Tref Porthmadog

**CYNHADLEDD GYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

**Cofnodion cyfarfod Cynhadledd Gyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian a gynhaliwyd yn y Ganolfan, Porthmadog, ar ddydd Gwener, 3 Mawrth 2017 o 11.00 a.m. tan 12.45 p.m.**

**YN BRESENNOL**

**Y Cynghorydd E. Selwyn Griffiths - Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams - Is-gadeirydd**

**Yn cynrychioli:**

Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Dewi Owen, Annwen Hughes, Eirwyn Williams, (Cyngor Gwynedd), Cyng. J.Michael Williams (Cyngor Sir Powys), Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas (Aelod Cynulliad Dwyfor/Meirionnydd), Cyng. Delwyn Evans (Grŵp Mynediad Meirionnydd), Cyng. Trefor Jones (Cynrychiolydd Dwyfor Un Llais Cymru), Mr Alun Wyn Evans (Cynrychiolydd Meirionnydd Un Llais Cymru), Claire Britton (Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri), Trevor Roberts (Pwyllgor Rheilffordd Amwythig/Aberystwyth),

Mr Ben Davies (Trenau Arriva Cymru), Mr David Crunkhorn (Trenau Arriva Cymru), Sam Hadley (Network Rail), James Widdowson (Network Rail), Sally Biggs (Network Rail), Ann Elias (GMW), Mr Roger Goodhew (Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Amwythig-Aberystwyth), Mr Rhydian Mason (Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian), Llinos Roberts (Swyddog Cludiant Cyhoeddus a Chymunedol), Mrs Mererid Watt (Cyfieithydd), Mrs Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Arsylwi:** Cyng. Louise Hughes (Cynghorau Cymuned y Friog a Llwyngwril), Mr Ian Hunt (un o drigolion Porthmadog)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Angela Russell, Gethin Williams, Owain Williams (Cyngor Gwynedd), Mr Tudur Williams (Pennaeth Ysgol Ardudwy), Yr Heddwas Rob Newman (Heddlu Trafnidiaeth Prydain), Liz Saville Roberts (AS Dwyfor/Meirionnydd), David Roberts (Parc Cenedlaethol Eryri), Mr David Woodhouse (Twristiaeth Aberdyfi a Thywyn), Mr Neil Hamilton (AC Canolbarth a Gorllewin Cymru).

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. MATERION BRYS**

Nid oedd y Cadeirydd wedi derbyn unrhyw faterion brys.

**3. COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod y gynhadledd a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2016.

**Penderfynwyd:** Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion.

## 4. ADRODDIAD GAN NETWORK RAIL

Croesawyd Mr Sam Hadley, Rheolwr Materion Cyhoeddus Llwybrau Cymru, Ms Sally Biggs a Mr James Widdowson i'r cyfarfod.

(a) O ran y gwaith brys oedd i'w ymgymryd ar Draphont Abermaw, dywedodd Ms Sally Briggs y byddai'r gwaith yn dechrau ar 12fed Mehefin tan 14eg o Orffennaf a ni fyddai yn effeithio ar y trenau gan y byddai'r gwaith yn cael ei wneud rhwng 12.00 hanner nos a 5.00 o'r gloch y bore. Wrth ymateb i ymholiad gan aelod am arwyddion ym mhob pen i lwybr y Fawddach, dywedwyd y byddai'n debygol y byddai gwylwyr ar ddyletswydd ar y safle.

Nodwyd ymhellach y byddai'r gwaith brys yma yn penderfynu pa waith arall oedd angen ei ymgymryd yn y tymor hirach a'r gobaith oedd y byddai swyddogion yn gallu adrodd ymhellach gyda rhagor o wybodaeth yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn.

Mewn ymateb, dywedodd y Cadeirydd fod cyfathrebu yn bwysig iawn i aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd a gofynnodd os oedd unrhyw ddatblygiadau fod yr wybodaeth yn cael ei hanfon ymlaen i'r Swyddog Cefnogi Aelodau fel bo modd rhannu'r wybodaeth gyda'r aelodau.

Sicrhawyd aelod oedd yn gwasanaethu ar Fforwm Mynediad Eryri y byddai Llwybr y Fawddach oedd yn ffurfio rhan o lwybr yr arfordir yn cael ei gadw yn agored.

O ran dathliadau pen-blwydd 150 oed y draphont, nodwyd y byddai cyfarfod ar wahân yn cael ei gynnal rhwng y Cynghorydd Trevor Roberts a'r swyddogion perthnasol i drafod hyn.

(b) Rhoddodd Mr James Widdowson gyflwyniad byr ar ei waith gyda Network Rail a dywedodd mai ef oedd yn gyfrifol am y tîm cynnal a chadw sy'n rheoli llystyfiant ger y cledrau / gordyfiant, planhigion ymledol, ffosydd, llifogydd ac ati.

(b) Llongyfarchwyd Network Rail am y gwaith a wnaed yn torri'r gordyfiant rhwng y brif ffordd a lein y rheilffordd yn ardal Aberdyfi ond mynegwyd pryder am ddiogelwch defnyddwyr y ffordd oherwydd y ffens annigonol a osodwyd rhwng Halt Gogarth ac Aberdyfi. Hefyd, tynnwyd sylw’r swyddogion at wrthrych, oedd mae'n debyg wedi dod oddi ar lori, oedd yn gorwedd ger lein y rheilffordd ac roedd wedi bod yno dros y pythefnos diwethaf.

(c) I ateb yr uchod, dywedodd Mr Widdowson mai polisi Network Rail oedd cyfnewid unrhyw ffens gyda ffens debyg ac efallai bod hyn wedi digwydd yn yr achos yma, ond byddai'n siarad gyda'r contractwr a wnaeth y gwaith.

(d) Atebodd y swyddogion perthnasol gwestiynau llafar yr aelodau fel a ganlyn:

- Cytunodd Mr Widdowson i ofyn i un o'i dîm i edrych ar Faes Parcio Gorsaf Reilffordd Dyffryn Ardudwy o ran iechyd a diogelwch, ac yn ôl yr aelod roedd angen ail-wynebu'r maes parcio a'i farcio gyda mannau parcio i'r anabl.
- Addawodd Mr Sam Hadley i fynd ar ôl yr arwyddion dwyieithog ar y lifftiau yng Ngorsaf Machynlleth.

- O ran problemau draenio, dywedodd Ms Sally Biggs y byddai Network Rail yn cynnal asesiad ac fe fyddai unrhyw broblemau draenio yn cael eu datrys yn dilyn hynny.

Roedd cwestiynau ysgrifenedig ffurfiol wedi eu cyflwyno gan Aelodau'r Pwyllgor / Cynghorau Cymuned / ac unigolion a atebwyd fel a ganlyn:

(i) **Diffyg ymgysylltu gyda'r Defnyddwyr, Grŵp Mynediad a Chyngor Gwynedd am y gwaith a wnaed ym Maes Parcio Dyffryn Ardudwy** ac o ganlyniad cafodd mynediad newydd ei greu i'r ffordd, gosodwyd giât ond roedd carreg yn atal y giât rhag agor. Pan roedd cerbydau yn mynd dros y ffordd roedd y giât yn cyfyngu'r agoriad i'r orsaf. Roedd pryder hefyd fod Network Rail heb ymgynghori gyda'r Cyngor Cymuned a Grŵp Mynediad Meirionnydd ac o ganlyniad roeddent wedi cael nifer o gwynion am broblemau symudedd i gael mynediad i'r orsaf. Awgrymwyd ymhellach mai'r ateb gorau fyddai gosod rhwystrau gyda goleuadau awtomatig.

I ateb yr uchod, dywedodd Mr Sam Hadley fod y gwaith wedi ei wneud gan dîm oddi ar y trac, oedd wedi delio â'r pryderon a godwyd gan geidwad y groesfan reilffordd gan fod pobl yn croesi o flaen trenau ar ôl dod i ffwrdd ac felly roedd diogelwch o'r pwysigrwydd pennaf a'r bwriad oedd mynd i'r afael â'r pryderon diogelwch a nodwyd. Ymddiheurodd Mr Hadley yn ddidwyll am iddynt wneud camgymeriad, ac roeddent yn ymwybodol o'r amgylchiadau, roedd gwersi wedi eu dysgu a bydd 'gwirio ychwanegol' yn orfodol fel rhan o asesiad y gwaith mewn sefyllfaoedd fel hyn yn y dyfodol. Pwysleisiodd fod Network Rail yn cydnabod pwysigrwydd Grwpiau Mynediad. O safbwynt giât y groesfan reilffordd, fe fyddai yn gorfod trafod y mater yma ymhellach gyda chydweithwyr ac o ran gosod y rhwystrau byddai hyn yn fater hir-dymor.

(ii) **Diffyg goleuadau ym maes parcio Gorsaf Llwyngwril** - Dywedodd Mr Hadley y byddai unrhyw oleuadau newydd yn y maes parcio yn welliant ond nid oedd gan Network Rail unrhyw arian yn bresennol ar gyfer hyn. Er hynny, gallai fod yna bosibilrwydd o weithredu gyda'r gymuned ac os oes arian ar gael yna byddai yn cael ei ystyried.

(iii) I ateb yr uchod, dywedodd y Cynghorydd Louise Hughes, aelod lleol Llwyngwril oedd yn bresennol yn y cyfarfod, ei bod yn deall o'r e-bost a dderbyniodd gan Network Rail bod arian ar gael ac aeth ymlaen i ofyn os oedd posib cael 'golau symudiad' o'r orsaf i'r maes parcio.

(iv) Dywedodd Mr Hadley y byddai yn falch o gael trafod y mater ymhellach gyda ei gydweithwyr.

(v) **Rhwystrau diogelwch/wal derfyn - Prif ffordd (A493) - rhwng Llwyngwril a'r Friog -** Dywedodd Mr Hadley fod angen ymchwilio'r mater ymhellach ac yn wir pwysleisiodd bwysigrwydd cydweithio gyda Chyngor Gwynedd. Roedd hyn yn awr yn rhan o raglen Network Rail a bwriad dau uwch beiriannydd asedau oedd ymweld â'r safle ar brynhawn y 29ain o Fawrth 2017. Mewn ymateb, darllenodd y Cadeirydd e-bost a dderbyniwyd gan Beiriannydd Ardal Cyngor Gwynedd oedd yn dweud fod y rhwystrau diogelwch yn syrthio o dan gyfrifoldeb Network Rail ac roedd cyfarfodydd wedi eu cynnal ar y safle rhwng swyddogion Cyngor Gwynedd a Network Rail pan ddywedwyd pa mor bwysig oedd y rhwystrau diogelwch i ddiogelwch y cyhoedd. Roedd Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi cynnig i Network Rail y byddent yn gwneud y gwaith ar eu rhan, ond roeddent angen archeb swyddogol i wneud hyn. Gofynnwyd ymhellach fod Mr Adrian Williams, Peiriannydd Ardal Meirionnydd, a'r aelod lleol, Cyng. Lousie Hughes yn cael gwahoddiad i fynychu cyfarfod safle ar y 29ain.

(vi) **Diweddariad ar y gwaith i wella arwyneb croesfan Cricieth yn dilyn damwain cerddwr -** Roedd y tîm cynnal a chadw wedi edrych ar Groesfan Merlyn ac fe wnaed yn glir yn y cyfarfod fod damwain hefyd wedi digwydd pan lithrodd cerddwr ar y groesfan a leolir yng nghanol Cricieth. Awgrymwyd fod Mr James Widdowson yn siarad ymhellach gyda'r Cyng. Eirwyn Williams am y digwyddiadau.

(vii) **Croesfan Reilffordd Talwrn Bach, Llanbedr -** I ateb cais gan yr aelod lleol am yr wybodaeth ddiweddaraf am y groesfan yma, dywedodd Mr Hadley fod cynlluniau i'w huwchraddio yn 2018 a pe byddai unrhyw newidiadau fe addawodd i roi gwybod i'r Pwyllgor hwn cyn gynted ag y daethai i wybod am unrhyw ddatblygiadau.

**Penderfynwyd - Derbyn a nodi'r adroddiad gan ddiolch i'r swyddogion am eu hadroddiadau ac am fynychu'r cyfarfod.**

## 5. ADRODDIAD GAN DRENAU ARRIVA CYMRU

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Ben Davies, Trenau Arriva Cymru, i gyflwyno ei adroddiad ar weithgareddau Trenau Arriva Cymru hyd yma.

Adroddwyd fod storm 'Doris' wedi achosi trafferthion yr wythnos ddiwethaf ac roedd Trenau Arriva Cymru yn cydweithio gyda Network Rail ar unrhyw faterion oedd heb eu datrys.

Adroddwyd ymhellach y byddai Wi-Fi ar gael ar yr holl drenau cyn y Pasg.

Roedd cwestiynau ysgrifenedig ffurfiol wedi eu cyflwyno gan Aelodau'r Pwyllgor / Cynghorau Cymuned / ac unigolion a atebwyd fel a ganlyn:

**(i) Darpariaeth cysgodfan yng Nghyffordd Dyfi** - Dywedodd Mr Ben Davies fod arian ar gael i ddarparu cysgodfan arall a bod trefniadau yn eu lle i fwrw ymlaen gyda hyn.

**(ii) Pam nad oes tocyn teithio am ddim ar gyfer yr henoed drwy'r flwyddyn yn hytrach nag yn ystod y gaeaf yn unig? -** Dywedodd Mr Ben Davies, Trenau Arriva Cymru, na fyddai capasiti eistedd digonol i fedru cynnig y consesiwn yma yn ystod misoedd yr haf. Er hynny, roedd y mater wedi ei drafod gyda Gweinidog Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran cael nifer ddigonol o gerbydau fel rhan o'r fasnachfraint newydd.

**(iii) Y Gymraeg, cyhoeddiadau dwyieithog ar y trefnau, ynganu enwau Cymraeg yn well mewn cyhoeddiadau yn y gorsafoedd -** Tra'n cytuno fod y Gymraeg yn bwysig iawn, dywedodd Mr Davies mai'r broblem oedd y diffyg arian ac nad oeddent yn gwybod beth oedd yn digwydd i'r trenau o ran y fasnachfraint newydd. Er hynny, cyhoeddodd yn y Pwyllgor iddo gael ei benodi i wasanaethu ar Grŵp Arriva yn Llundain oedd yn gyfrifol am y cais masnachfraint. Sicrhaodd yr aelodau y byddai yn lleisio pryderon pobl gogledd Cymru am y Gymraeg, amserlenni ac ati gan sicrhau fod y polisi iaith yn cael ei ddatrys.

Wrth ymateb i'r uchod, llongyfarchodd yr aelodau Mr Ben Davies ar ei benodiad gan gefnogi'r angen i fynd i'r afael gyda'r polisi iaith. Sicrhaodd y Cyng Trevor Roberts y Pwyllgor fod y pedwar ymgeisydd wedi cael gwybod am yr angen am wybodaeth ddwyieithog ar reilffyrdd a gorsafoedd Cymru.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol gwnaeth yr aelodau'r sylwadau a ganlyn:

- Bod y Gymraeg yn bwysig iawn ac y dylai'r cyhoeddiadau yn y lifft newydd ym Machynlleth fod yn ddwyieithog.
- O ran ynganu, dywedwyd ei bod yn llawer haws i berson oedd yn siarad Cymraeg i ynganu enwau gorsafoedd yn Lloegr nag ydoedd i berson oedd yn siarad Saesneg i ynganu enwau gorsafoedd yng Nghymru.

Wrth ymateb i'r pwyntiau uchod, dywedodd Mr Ben Davies fod y cyhoeddiadau yn cael eu gwneud drwy system tecst i siarad ac nid oedd bob amser yn cael ei ddweud gan berson. Er hynny, dywedwyd ymhellach fod staff oedd ddim yn siarad Cymraeg yn cael cyfle i ddysgu'r iaith ac yn cael eu hannog i siarad Cymraeg.

Manteisiodd aelod ar y cyfle i dalu teyrnged ac i ddiolch i'r pedwar aelod oedd wedi gweithio'n ddiflino yn ystod cyfnod ymgynghori Gwasanaeth Rheilffordd Cymru a'r Gororau:

Y Cynghorydd Trevor Roberts
Y Cynghorydd J. Michael Williams
Mr Rhydian Mason
Mr Robert Robinson

**(iv) A fyddai modd trefnu un trên cyflym y dydd bob ffordd ar Arfordir y Cambrian er mwyn cyflymu'r siwrne i Fachynlleth ac yn ôl?**

Dywedodd Mr Ben Davies na fyddai unrhyw newid yn yr amserlen a dim trenau ychwanegol, er hynny, addawodd i fynd â'r mater ymhellach. Yn bersonol, roedd o blaid trên bob dwy awr gan gynnwys dydd Sul.

**(v) Beth yw'r datblygiadau ar gyfer trên hwyr o Bwllheli?**
Dywedodd Mr Ben Davies na fyddai unrhyw drên ychwanegol o Bwllheli. Er hynny, byddai gwelliant yn y gwasanaeth gan y bydd trên Machynlleth yn aros tan daw'r trên 8.30pm o Amwythig ac felly byddai gwell cyswllt rhwng Machynlleth i Bwllheli.

**(vi) Cyfleusterau Safonol yng ngorsaf drenau Porthmadog - byrddau arddangos, cysgodfan ac ati. A fyddai modd trafod y ffordd ymlaen ar gyfer gwella edrychiad yr orsaf ar yr olwg gyntaf? Roedd angen ei gwella a'i huwchraddio ar frys. Nodwyd mai dyma oedd yr olwg gyntaf o'r dref roedd teithwyr yn ei gael ac nid oedd yn creu argraff dda iawn.**

Wrth ateb yr uchod, yn ogystal â'r ohebiaeth a dderbyniwyd gan Mr Ian Hunt, un o drigolion Porthmadog, awgrymwyd fod Mr David Crunkhorn, Trenau Arriva Cymru, yn trefnu i gyfarfod gyda Mr Hunt, a'r Cyng. Selwyn Griffiths, Cadeirydd Cyngor Tref Porthmadog, ar ddyddiad oedd yn gyfleus i bawb i drafod y ffordd ymlaen.

**Penderfynwyd - Derbyn a nodi'r adroddiad a diolch i Mr Ben Davies amdano.**

## 6. ADRODDIAD SWYDDOG DATBLYGU RHEILFFYRDD Y CAMBRIAN

**Cyflwynwyd** - Adroddiad ysgrifenedig gan Mr Rhydian Mason, Swyddog Rheilffyrdd Partneriaeth y Cambrian oedd yn amlinellu'r gweithgareddau wnaed ers y cyfarfod blaenorol oedd yn cynnwys;

(a) **Datblygiadau gyda hyrwyddo Cynllun y Waled Oren yn genedlaethol**

Roedd Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yr Adran Drafnidiaeth wedi rhoi ei gefnogaeth i hyrwyddo Cynllun y Waled Oren yn genedlaethol ac mewn ymgynghoriad gyda Trenau Arriva Cymru a Grŵp DU Arriva, a byddai hyn yn mynd rhagddo.

(b) **Masnachfraint Rheilffyrdd a chefnogaeth Llywodraeth Cymru**

Roedd wedi mynychu amryw o gyfarfodydd am y fasnachfraint reilffordd ynghyd â chydweithwyr o'r bedair Bartneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol arall yng Nghymru a'r Gororau.

(c) **Cyhoeddiadau**

Cyfeiriwyd at lyfryn newydd o deithiau cerdded byr yn ardaloedd Rheilffyrdd y Cambrian oedd i'w gyhoeddi fyddai yn lle taflenni Llwybrau'r Cambrian. Roedd cerdded yn boblogaidd iawn a'r gobaith oedd y byddai'r Canolfannau Croeso ym Mhorthmadog ac Abermaw yn ail-agor er mwyn hyrwyddo digwyddiadau.

(d) **Arolygon**

Roedd Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian yn comisiynu arolygon i'w cynnal yng ngwanwyn 2017, fel rhan o'r grant gan Lywodraeth Cymru. Roedd yr arolygon yn dilyn llwyddiant arolygon 2013 a 2015 a olygodd well gwasanaethau ar Leiniau'r Cambrian.

(e) **Ymgyrch Hyrwyddo 2017**

O ran gwaith hyrwyddo, roedd y cyfnod yma wedi bod yn bwysig iawn ac roedd arian ychwanegol wedi ei sicrhau i baratoi gwefan newydd sbon sy'n canolbwyntio ar ymwelwyr gyda mwy o ffilmiau byr.

(f) **Storïau a Llyfrau ar y Cambrian**

Disgwylid am gadarnhad o fanylion a'r arian oedd ar gael ar gyfer peilota prosiect o gysylltu storiau a llyfrau gyda Leiniau'r Cambrian a fyddai yn hyrwyddo teithiau i blant ysgol ar y trenau.

(g) **Cynllun Busnes 2017-2018**

Roedd y cynllun busnes yn y broses o gael ei baratoi a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Bartneriaeth yn y cyfarfod nesaf. Byddai copi ar gael i Aelodau'r Pwyllgor hwn drwy'r Swyddog Cefnogi Aelodau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod am amserlen Arfordir y Cambrian ar ffurf cerdyn bach oedd yn boblogaidd iawn gyda phobl leol ac ymwelwyr, dywedodd Mr Mason eu bod yn dal i gael eu cynhyrchu ond roedd hi yn anodd eu dosbarthu i'r canolfannau croeso ac ati. Roedd y dosbarthu wedi canolbwyntio ar Orsafoedd Rheilffordd ond os oedd Canolfan Groeso Aberdyfi angen cyflenwad pellach dylent gysylltu â Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at gyhoeddiad 'Trên Mawr yn cwrdd â'r Trên Bach' ac roedd Rheolwr Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri, fel Cadeirydd Twristiaeth Gogledd Cymru, yn fwy na bodlon dosbarthu unrhyw gyhoeddiadau ymhellach.

Wrth gloi, dywedodd Mr Mason y byddai yn ymddiswyddo o'i swydd yn ystod y dyddiau nesaf ac roedd wedi sicrhau swydd newydd gyda Network Rail, fel Rheolwr Croesfannau Rheilffordd yn gyfrifol am yr ardal o Abermaw i Bwllheli. Diolchodd i'r aelodau am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth yn ei swydd bresennol. Deallodd y byddai'r Bartneriaeth yn llenwi'r swydd ac roedd yn hyderus y byddai olynydd yn cael ei benodi/ei phenodi yn y dyfodol agos.

Ar ran y Pwyllgor, llongyfarchodd y Cadeirydd Mr Mason ar ei benodiad diweddar a diolchwyd iddo am ei waith caled ac am gefnogi'r Pwyllgor yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Penderfynwyd - Derbyn a nodi'r adroddiad a diolch i Swyddog Rheilffyrdd Partneriaeth y Cambrian amdano.**

**7. ADRODDIAD GAN HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDAIN**

Roedd yr Heddwas Rob Newman, Heddlu Trafnidiaeth Prydain, wedi anfon ymddiheuriad gan nad oedd yn gallu dod i'r cyfarfod ond nid oedd ganddo ddim i'w adrodd oedd yn berthnasol i reilffordd y Cambrian gan iddi fod yn gyfnod tawel iawn ers y cyfarfod diwethaf ym mis Tachwedd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

8. **CWESTIYNAU FFURFIOL**

Roedd y cwestiynau ffurfiol ysgrifenedig wedi eu trafod fel rhan o adroddiadau'r swyddogion ac wedi eu nodi yn rhifau 5 a 6 uchod.

**Penderfynwyd: Diolch am y cwestiynau ac am yr atebion ffafriol a gafwyd gan y swyddogion.**

9. **DYDDIADAU I'R DYDDIADUR**

Byddai Trafnidiaeth Cymru yn cyflwyno ymgynghoriad cyhoeddus ar Wasanaeth Rheilffordd Cymru a'r Gororau yn cynnwys Metro De Cymru a byddid yn cynnal hanner diwrnod, gweithdai boreol i gasglu barn ar y gwasanaethau newydd ar y dyddiadau a ganlyn ac yn y lleoliadau a nodwyd:

20 Mawrth Canolfan Gateway, Amwythig
21 Mawrth Venue Cymru, Llandudno
28 Mawrth Coleg y Cymoedd, Nantgarw
29 Mawrth Gwesty'r Ivy Bush, Caerfyrddin
3 Ebrill Gwesty'r Marine, Aberyswyth

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'i gyfnod fel Cadeirydd y Pwyllgor hwn a hefyd dymunodd yn dda i'r aelodau oedd yn wynebu etholiad llywodraeth leol ar y 4 Mai 2017.

**CADEIRYDD**

# CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN
# CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE

**Cwestiwn i TRENAU ARRIVA CYMRU CYF. / Question for ARRIVA TRAINS LTD**

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

As sponsors of the ECTMS signalling used on the Cambrian, it behoves NETWORK RAIL to press for all converted passenger vehicles to be used thereon.
This means that NETWORK RAIL takes their responsibility for the non-availability of non Class 158 stock on the Cambrian.
Either all 24 units of Class 158 dmu's are properly allocated or NETWORK RAIL funds conversion of other vehicles to meet demand.

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

Oddiwrth / From: R. Goodhew

Shrewsbury - Aberystwyth Rail Passengers Association

**I'w dychwelyd i / To be returned to:**

**Glynda O'Brien**
**Swyddog Cefnogi Aelodau / Members Support Officer**
**Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council**
**Cae Penarlag**
**DOLGELLAU**
**Gwynedd. LL40 2YB**

**Erbyn / By:** **20.10.17**

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i TRENAU ARRIVA CYMRU CYF. / Question for ARRIVA TRAINS LTD**

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

**Ynglyn â: Rhwystrau Diogelwch / wal derfyn - Brifffordd(A493) – Rhwng Llwyngwril a Friog**

Mae Aelodau Cyngor Cymuned Llangelynnin wedi bod yn bryderus ers peth amser am faterion diogelwch ar y ffordd uchod gan fod y wal derfyn a'r rhwystrau diogelwch mewn cyflwr gwael iawn ac angen sylw brys cyn i ddamwain angheuol ddigwydd.

23.01.15 - Adroddodd Cyngor Cymuned Llangelynnin am eu pryderon i Gyngor Gwynedd – yn amlygu'r peryglon i ddefnyddwyr ffordd ar y rhan yma gan fod y rhwystrau diogelwch ddim yn addas i'w pwrpas.

12.05.15 – Cadarnhaodd Cyngor Gwynedd eu bod wedi asesu'r safle ac o ganlyniad i hyn rhoddwyd cyfyngiad 30mya dros dro ar y rhan yma er diogelwch defnyddwyr y ffordd. Hysbyswyd y Cyngor Cymuned hefyd eu bod wedi cysylltu gyda'r Rheilffordd i gael eu hymateb, gan fod y Rheilffordd yn gyfrifol am y wal derfyn a'r rhwystrau diogelwch.

06.10.15 – Cadarnhaodd Cyngor Gwynedd eu bod wedi cysylltu â'r Rheilffordd ac y byddai cyfarfod safle yn cael ei gynnal rhyw dro ym mis Hydref – ond nid oedd unrhyw ddyddiad wedi ei bennu.

01.02.16 – Anfonodd Cyngor Cymuned Llangelynnin lythyr at Network Rail i amlygu eu pryderon am faterion diogelwch yma – Cyf Grid SH61096 o bentref Friog, i'r de tuag at bentref Llwyngwril – Cyf Grid SH60213 11238

29.02.16 - Derbyniwyd neges oddi wrth Network Rail yn cadarnhau bod cais y Cyngor Cymuned wedi ei drosglwyddo i Dîm Strwythurau RAM Network Rail i'w ymchwilio ymhellach – Cyfeirnod Network Rail – 160204-000019.

12.04.16 - Neges gan Mr Stewart McIlroy Swyddog Cysylltiadau Cymunedol, Network Rail gyda diweddariad am yr achos – 'Cynigwyd y bydd Cyngor Gwynedd yn ymgymryd â'r gwaith ar ran Network Rail ar gost Network Rail'

11.07.16 – Derbyniwyd neges oddi wrth Mr McIlroy yn dweud y bydd yn cysylltu gyda ni gan ein diweddaru unwaith y bydd wedi cael rhagor o wybodaeth …
…hyd yma ni allaf roi ateb na diweddariad gan Network Rail na Chyngor Gwynedd ynglŷn â beth y bwriedir ei wneud yma …

Fel y soniais yn fy llythyrau diwethaf at Gyngor Gwynedd a Network Rail ym mis Tachwedd 2016 a Ionawr 2017, bu digwyddiad yma cyn y Nadolig pan darodd car i fewn i'r wal derfyn ond diolch i'r drefn ni aeth dros drac y rheilffordd. Mae'r wal yn dal wedi ei dymchwel ac mae'r arwyddion ffordd yn rhybuddio defnyddwyr ffordd eraill am y perygl yn dal ar y safle – bron i dri mis ar ôl y ddamwain.

A wnewch chi, os gwelwch yn dda, geisio cael Cyngor Gwynedd a Network Rail i gyd-gysylltu ac i ymroi i ddyddiad ynglŷn â phryd y byddant yn dechrau ar y gwaith gan fod angen i hyn gael ei wneud fel mater o frys cyn i ddamwain angheuol ddigwydd yma – does neb eisiau cael y bai am esgeulustod yn nag oes?

Glenda Edwards – Clerc
Ar ran Cyngor Cymuned Llangelynnin

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

Oddiwrth / From: Cyngor Cymuned Llangelynnin

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i TRENAU ARRIVA CYMRU CYF. / Question for ARRIVA TRAINS LTD**

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

**Ynglŷn â: Diffyg Goleuadau ym Maes Parcio Gorsaf Llwyngwril**

Mae Cyngor Cymuned Llangelynnin wedi derbyn nifer o gwynion gan aelodau o'r gymuned am y diffyg goleuadau ym Maes Parcio'r Orsaf. Y cwynion yw ei bod hi yn dywyll iawn ac yn beryglus i gerddwyr gerdded o'r platform i'r ffordd.

17.12.14 – Adroddodd Cyngor Cymuned Llangelynnin y gŵyn yma i Network Rail.

05.01.15 – Derbyniwyd ateb gan Jordan Pepperall, Network Rail [Digwyddiad: 14131-000092] yn dweud ' er mai Network Rail yw'r perchennog tir, mae'r ardal dan brydles i Drenau Arriva Cymru ac felly anfonwyd y gŵyn ymlaen i TAC.

21.01.15 – Ateb gan Trenau Arriva Cymru [Cyf achos ATW-150105-L8W] yn cadarnhau 'nid oes unrhyw lampau yn y maes parcio hwn a'r unig olau sydd ar gael yw'r golau ar y platform. Byddai yn rhaid i Network Rail ymgymryd â gwaith gwella i ddarparu goleuadau. Felly, byddwn yn dwyn hyn i'w sylw mewn cyfarfod yr wythnos nesaf, er hynny ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau gyda hyn i'r dyfodol. Er bod yr ardal o dan brydles eu cyfrifoldeb hwy yw ymgymryd â'r gwelliant yma.'

Mae Aelodau Cyngor Cymuned Llangelynnin yn dal yn bryderus am y diffyg golau ym Maes Parcio Gorsaf Llwyngwril a byddem yn ddiolchgar pe medrech ddod â'r mater yma i sylw Pwyllgor Cyswllt Arfordir y Cambrian i'w drafod yn eich cyfarfod nesaf gan y gobeithio y ceir ateb ffafriol.

Glenda Edwards – Clerc
Ar ran Cyngor Cymuned Llangelynnin

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

Oddiwrth / From: Cyngor Cymuned Llangelynnin

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i TRENAU ARRIVA CYMRU CYF. / Question for ARRIVA TRAINS LTD**

1. A yw Arriva yn medru sicrhau ei bod yn cynnig gwasanaeth ddwyieithog?
2. A yw Arriva am ystyried cael un trên cyflym y dydd nôl ac ymlaen o'r Gogledd i'r De? Mae hyn wedi cael ei godi o'r blaen.
3. A yw Arriva am ystryied cynnig gwasanaeth arlwyo ar y trên rhwng Pwllheli a Machynlleth?
4. Nid oes gan y stesions trên rhwng Pwllheli a Machynlleth beiriannau tocynnau – ac mae'n anghyfleus nad oes modd printio tocynnau wedi eu prynu o'r We neu medru eu lawrlwytho ar app. A oes modd datrys hyn?

********

1. Is Arriva able to assure that they offer a bilingual service?
2. Is Arriva considering having one fast train per day travelling to and from the North to the South? This has been raised previously.
3. Is Arriva considering offering a catering service on the train between Pwllheli and Machynlleth?
4. The train stations between Pwllheli and Machynlleth do not have ticket machines – and it is inconvenient that there is no means of printing tickets bought on the Internet or being able to download them on an app. Is it possible to resolve this?

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

A oes modd cael arwyddion i'r stesion drên yng Nghriccieth?

Is is possible to have signs on the train station in Criccieth?

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

Oddiwrth / From: Cyngor Tref Criccieth …………………………

…………………………………………………………………….

**I'w dychwelyd i / To be returned to:** **Glynda O'Brien**
**Swyddog Cefnogi Aelodau / Members Support Officer**
**Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council**
**Cae Penarlag**
**DOLGELLAU**
**Gwynedd. LL40 2YB**

Cyngor Tref Penrhyndeudraeth

Clerc: Glyn E. Roberts
3 Tai Meirion, Beddgelert LL55 4NB
Ffôn: 01766 890483
glynctp@btinternet.com

Cadeirydd: Medwyn Williams
16 Maes y Garth
Minffordd LL48 6EE
Ffôn: 01766 771315

(4)

10/17

Cyngor Tref Porthmadog
Mrs Glenda Burke – Clerk

18 September 2017

Dear Clerk

**RE: lack of use and priority for the Welsh language by Arriva Trains Wales**

Thank you for your letter dated 31 July 2017, which was discussed at the Council's regular meeting on 12 September 2017.

The Council has been working with One Voice Wales regarding this issue for some time, and here is the response received from Ken Skates AM for your information.

> Dear Glyn
>
> Thank you for your e-mail dated 30 May regarding the bilingual policy associated with the new railway contract.
>
> We expect the new operator to have written and oral contact with the public and passengers in Wales through the medium of Welsh and English. Communication with customers about train inquires, and in response to contact made via social media is available in Welsh and English.
>
> Where Welsh speaking staff are available, service through the medium of Welsh will be available at stations' receptions and ticket offices. Where there are no Welsh speaking staff available, Welsh speaking staff will be available over the phone or through remote presence technologies. We also expect the operator to offer Welsh language training for all its staff.
>
> Yours sincerely,
>
> Ken
>
> **Ken Skates AC/AM**
> Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
> Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Yours sincerely,

Glyn E Roberts

Clerk